

PYOG

Grwp Prif Swyddogion Ieuenctid
Principal Youth Officers' Group

**Llesiant emosiynol ac iechyd meddwl
pobl ifanc yng Nghymru - pa gyfraniad
all gwaith ieuenctid ei wneud?**

**Papur trafod ar ran Cylch Prif Swyddogion
Ieuenctid Cymru**



WLGA • CLILC

Mehefin 2016

Llesiant emosiynol ac iechyd meddwl pobl ifanc yng Nghymru - pa gyfraniad all gwaith ieuenctid ei wneud?

Gall llesiant fod yn derm anodd ei ddiffinio gan ei fod yn beth eithaf goddrychol, sy'n golygu pethau gwahanol i bobl wahanol mewn cyd-destunau gwahanol ac ar ddyddiau gwahanol. Serch hynny, mae cytundeb cyffredin bod cyflwr corfforol a meddyliol positif (llesiant) "*...yn galluogi unigolyn i weithredu mewn cymdeithas a bodloni galwadau bywyd bob dydd; mae gan bobl sydd mewn iechyd meddyliol da y gallu i ymadfer yn effeithiol o salwch, newid neu anffawd.*" Y Sefydliad Iechyd Meddwl. Po fwyaf y gallwn ni reoli'n hemosiynau, gorau i gyd gallwn ni fwynhau bywyd, ymdopi â straen, a chanolbwyntio ar flaenoriaethau personol pwysig.

Er bod gennym ni i gyd ffactorau risg sy'n gallu creu amgylcheddau sy'n effeithio'r negyddol neu'n gadarnhaol ar ein 'llesiant', mae pobl ifanc yn benodol (wrth iddyn nhw symud o blentynod i fywyd oedolyn) ar adeg yn eu bywydau pan fydd **y cyfryw ffactorau risg yn gallu cael eu dwysáu o ganlyniad i'r cyfnod trosiannol hwn**. Er bod meddwl a chorff y glasoed yn datblygu'r cadernid mae ei angen i 'ymdopi', mae'n fwyaf agored i niwed hefyd gyda ffactorau fel pwysau cymheiriaid, dulliau byw modern, bwlio, profedigaeth, gofid, newid teuluol ac ati i gyd yn gallu effeithio'n aruthrol ar hunan-barch rhywun ifanc a'i allu i ddysgu.

Pobl ifanc – asedau i gymdeithas

Derbynnir yn gyffredin bod gan bobl ifanc heddiw ddulliau o fyw llawer mwy cymhleth a chyflym na chenedlaethau blaenorol, ac mae ychwanegiad diweddar cyfryngau cymdeithasol yn golygu bod bron popeth sy'n cael ei dal neu ei ysgrifennu ar gael ac yn hygyrch ar unwaith. Mae hyn wrth gwrs yn gallu cael effeithiau cadarnhaol a negyddol fel ei gilydd a'r allwedd i lywio drwy'r ymosodiad lefel uchel hwn ar y synhwyrau a'r amrediad eang o ddewis yw addysg - **deall y canlyniadau a dysgu sut i wneud dewisiadau gwybodus**.

Mewn llawer o ffyrdd, mae'r galwadau ar bob cenedlaeth newydd yn tyfu, yn ôl pob golwg, ac mae'n ofynnol i bobl ifanc addasu'n gynyddol i amgylcheddau modern/cyfoes yn gyflymach. Maen nhw'n dod yn oedolion yn gynt e.e. mae glasoed yn dechrau ychydig o flynyddoedd yn gynharach nawr na'r genhedlaeth flaenorol ac mae eu cyfnod yn blentyn yn fyrrach o ganlyniad. Ond yn ogystal â chael eu siapio gan eu hamgylchedd, yn yr oes ddigidol newydd mae ganddyn nhw **botensial aruthrol i'w siapio hefyd**. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio'n dod yn fwy dibynnol ar genedlaethau iau, **dylai pobl ifanc nawr, yn fwy nag erioed, gael eu gweld fel asedau i gymdeithas ac mae angen i gymunedau a pholisi cymdeithasol adlewyrchu hynny**.

Mae Erthygl 12 o *Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn* (UNCRC) yn dweud bod gan bobl ifanc yr hawl i leisio eu barn ar faterion sy'n effeithio arny'n nhw. Gallan nhw wneud hyn orau pan gynigir fframwaith iddyn nhw allu gwneud hynny. Cyrff sy'n gweithio gyda phobl ifanc sydd yn y sefyllfa orau i hwyluso hyn a,

Ile bo'n berthnasol, i leisio eu hanghenion a'u meithrin fel asedau, gyda'r Gwasanaeth Ieuentid yn chwarae rhan allweddol yn hyn o beth.

Diffinnir y Gwasanaeth Ieuentid fel y fframwaith ar gyfer darparu gwaith ieuentid (proffesiwn sy'n cael ei ddiffinio gan ei Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a'i fframwaith cymwysterau ei hun).

Er bod yna nifer o ddulliau gwerthfawr o ymgysylltu â phobl ifanc o dan y term ymbarél Gwasanaethau Cymorth Ieuentid, mae gwaith ieuentid ar agor i bobl person ifanc rhwng 11 a 25 oed a'i ddiben pennaf yw: "*galluogi pobl ifanc i ddatblygu'n gyfannol, gan weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i ganiatáu iddyn nhw ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn.*" (Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol gwaith ieuentid). Fe'i seilir ar ymgysylltu gwirfoddol a'i ddarparu drwy ymagweddau addysgol anffurfiol a ffurfiol yn ystod y cyfnod pontio rhwng plentyndod i fywyd oedolyn.

Mae gwaith ieuentid yn cael ei gynnal mewn amrywiaeth o leoliadau a thrwy nifer o ddulliau, gan ddatblygu amrediad eang o sgiliau personol a chymdeithasol (meddal), sy'n sylfaen i lais, dylanwad a chyfraniad unigolyn at gymdeithas. Mae enghreifftiau o'i gyflwyno yn cynnwys:

- Celfyddydau, drama a diwylliant
- Cymorth cyntaf
- Chwaraeon a gweithgarwch corfforol
- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad
- Gwasanaethau cwnsela
- Sesiynau preswyl
- Clybiau ar Ôl Ysgol
- Dinasyddiaeth
- Gwaith prosiect
- Gwobr Dug Caeredin
- Cynladwyedd
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Rhaglenni cwricwlwm amgen
- Iechyd a Llesiant

Atal ac ymyrraeth gynnar - beth yw rôl y Gwasanaeth Ieuentid?

Fel rhywogaeth, mae bodau dynol yn chwilio am gysylltiad a pherthyn a thrwy hynny'n magu teimladau o ddiogelwch ac o fod yn rhan o rywbeth, sydd yn ei dro yn rhoi ymdeimlad o bwrpas. Drwy'r cysylltiadau hyn rydym ni'n datblygu ymddygiadau. Mae gwaith ieuentid "*...yn darparu neu'n hwyluso...lleoedd a pherthnasoedd y gall pobl ifanc fwynhau eu hunain ynddynt, teimlo'n ddiogel, dysgu i gymryd mwy o reolaeth dros eu bywydau a chydabod a gwrthsefyll y dylanwadau niweidiol a allai effeithio arnynt*" [Gwaith Ieuentid yng Nghymru: Egwyddorion a Phwrpasau](#). Mae magu perthnasoedd wedi bod yn ganolog i rethreg ac i ymarfer gwaith ieuentid gydag **addysg ar gyfer perthnasoedd ac addysg drwy berthynas** yn themâu pwysig. Yn ogystal mae hyn yn aml yn meithrin amgylcheddau mwy ffafriol i fodloni anghenion pobl ifanc.

Yn hanesyddol, ni chafodd gwaith ieuenctid ei ddatblygu i 'gadw pobl ifanc oddi ar y strydoedd' neu i ddarparu adloniant ac yn bendant nid yw canfyddiad o'r fath yn adlewyrchu gwaith ieuenctid heddiw. Fel y disgrifiwyd uchod, ei sail yw egwyddor o ddysgu heb fod yn ffurfiol/anffurfiol gyda grym addysgiadol i chwarae'ch rhan mewn grŵp neu gymdeithas yn un o nodweddion diffiniadol gwaith ieuenctid ers ei gychwyn, sydd efallai'n cael ei leisio gryfaf yn Adroddiad Albermarle (1960). Yn draddodiadol, mae pobl ifanc hefyd wedi bod yn rhydd i ymgymryd â pherthnasau (a rhoi diwedd iddyn nhw) â gweithwyr ieuenctid pan oedden nhw'n dymuno.

Mae llawer o "gymwyseddau cymdeithasol" yn cael eu dysgu drwy weld a gwneud, drwy brofi a methu yn ogystal â llwyddo - y gallu i ymdopi â methiant, i ailafael mewn pethau a dysgu o'r profiad (cydnerthedd). Mae gwaith ieuenctid nid yn unig yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc 11-25 oed adeiladu ac ail-adeiladu agweddau ar eu bywydau, i adlewyrchu a gwerthuso, ond hefyd yn cynnig rhaglenni dysgu pwrpasol gan ddefnyddio technegau gwahanol (ond cyflenwol) mewn amgylcheddau cefnogol sy'n cynnig dewis amgen i bobl ifanc iddyn nhw geisio cyflawni eu potensial llawn.


Er mwyn gwella cyfleoedd i feithrin iechyd meddwl positif, mae angen sylfaen emosiynol gryf ar bobl ifanc, a seilir ar hunan-ymwybyddiaeth, empathi, gwydnwch a hunan-effeithlonrwydd. Mae llawer o'r nodweddion hyn yn cael eu datblygu yn ystod cyfnod pobl ifanc mewn addysg ffurfiol (ysgolion/addysg bellach ac uwch) ond, gan eu bod nhw'n treulio **rhyw 85% o'u hamser effro y tu allan i addysg ffurfiol** (Yr Athro Tim Brighouse *Education without failure*, Cylchgrawn Digidol Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, Hydref 2008), mae cyfleoedd di-rif o fewn cymunedau ac amser hamdden i wneud hynny hefyd.

Gosododd *Deddf Dysgu a Sgiliau* (2000) ofyniad ar awdurdodau lleol i 'ddarparu, sicrhau neu gymryd rhan mewn' Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid. Mae'r ddogfen Cyfarwyddyd a Chanllawiau dilynol *Ymestyn Hawliau* (2002) yn cynnig y fframwaith ar gyfer darparu hyn - sef y 10 Hawl:

1. Addysg, hyfforddiant a phrofiad gwaith – wedi eu teilwra i'w hanghenion.
2. Sgiliau sylfaenol sy'n agor drysau i fywyd llawn ac yn hybu cynhwysiant cymdeithasol.
3. Amrediad eang ac amrywiol o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gwirfoddoli a dinasyddiaeth weithgar.
4. Gwasanaethau a chyfleusterau ymatebol a hygyrch, o ansawdd uchel.
5. Cyngor gyrfa arbenigol annibynnol, arweiniad, cymorth i fyfyrwyr a gwasanaethau cwnsela.
6. Cymorth a chyngor personol – pan fydd arnyn nhw eu hangen – gyda seiliau clir o ran cyfrinachedd.
7. Cyngor am iechyd, budd-daliadau tai a materion eraill sy'n cael ei roi mewn lleoliad hygyrch a chroesawgar.
8. Cyfleoedd hamdden a chymdeithasol mewn amgylchedd diogel a hygyrch.
9. Profiadau chwaraeon, celfyddydol, cerddorol ac awyr agored i feithrin doniau, ehangu gorwelion a hyrwyddo safbwyntiau cytbwys gan gynnwys cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol.

10. Yr hawl i gyfrannu at ymgynghoriadau, i gymryd rhan mewn penderfyniadau, ac i gael eu clywed, ar bob mater sy'n ymwneud â nhw neu sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r Gwasanaeth Ieuentid yn gwneud cyfraniad o bwys at hyn drwy bum 'piler' neu werth, fel y'u disgrifir yn *Gwaith Ieuentid yng Nghymru: Egwyddorion a Phwrpasau*:



Mae gwasanaethau ieuentid yn gweithredu'n wasanaeth ataliol pwysig, sydd yn aml yn **cadw person ifanc rhag cyrraedd pwynt critigol** lle bydd angen ymyriadau pellach e.e. gwasanaethau cymdeithasol, tai, CAMHS, yr heddlu ac ati. Drwy weithio'n agos gyda phobl ifanc, gan eu helpu i lywio drwy eu hanawsterau a'u profiadau, mae'r angen am ymyriadau mwy brys a chostus yn cael ei osgoi'n aml.

Serch hynny, mae llawer o bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau ieuentid wedi ymeithrio rhag gwasanaethau prif ffrwd yn aml ac yn hawdd eu niweidio. Mae rhai yng ngofal gwasanaethau iechyd meddwl plant a glasoed (CAMHS) neu'r gwasanaethau cymdeithasol, mae angen hynny ar rai eraill efallai ond nid oes ganddyn nhw'r cymhelliant neu'r gallu i geisio help. Yn ogystal â chynorthwyo pobl ifanc i ddod yn hunangynhaliol ac yn annibynnol, mae **gweithwyr ieuentid hefyd yn eiriolwyr cymwys**, sy'n gweithredu er budd gorau'r person ifanc ar yr un pryd â hybu datblygiad sgiliau'r unigolyn hwnnw.

Nod rhaglen bresennol *Law yn Llaw at Blant a Phobl ifanc* (T4CYP) Llywodraeth Cymru yw "...ad-drefnu gwasanaethau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Nghymru, yn unol ag egwyddorion gofal iechyd deallus" gyda phwyslais ar atal. Drwy ymwneud â phobl ifanc rhwng 11 a 25 oed, **gweithwyr ieuentid yn aml yw'r unig elfen gyson i berson ifanc sy'n**

ymwneud â gwasanaethau arbenigol fel *Gwasanaethau Cwnsela Annibynnol* a/neu CAMHS – gallan nhw weithredu’n frocer gwasanaethau a maen nhw yn gwneud hynny, yn ogystal â bod yr unig ddarpariaeth sydd ar gael wrth ymadael â’r cyfryw wasanaethau yn aml.

Sut mae gweithwyr ieuentid yn cyfrannu at lesiant emosiynol pobl ifanc?

Mae *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Strategaeth ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant yng Nghymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014)* i gyd yn cynnig fframwaith ar gyfer cydweithredu a chyfleoedd i wasanaethau ataliol yn arbennig wneud mwy o gyfraniad at yr agenda bwysig yma. Mae Grŵp y Prif Swyddogion Ieuentid wedi cynnal ymarfer mapio sy’n cynnwys cyfraniad gwaith ieuentid at *Ddeddf Cenedlaethau’r Dyfodol*, y mae llawer ohoni’n berthnasol i hyrwyddo llesiant emosiynol gwell:

Nod	Enghreifftiau o gyfraniad
Cymru ffyniannus	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gall pobl ifanc ysgwyddo rôl arwain neu gefnogi drwy gynlluniau arweinwyr iau ac addysg gymheiriaid. ➤ Mae Fforymau a Chynghorau Ieuentid yn cynnig llwyfan i bobl ifanc fynegi eu barn a chael cydnabyddiaeth. ➤ Datblygiad sgiliau cyflogaeth ehangach e.e. cyfathrebu, gwaith tîm, sgiliau rhyngpersonol, arweinyddiaeth ➤ Pobl ifanc yn cael eu hannog i chwarae rôl bositif yn eu cymunedau ➤ Darparu cymunedau i gymryd rhan, beth bynnag eu cefndir ➤ Ehangu gorwelion a gwella dyheadau drwy gynnig profiadau newydd a heriol ➤ Meithrin sgiliau cyflogadwyedd sy’n annog cynnydd pobl ifanc ➤ Gwaith ieuentid mewn ysgolion – hybu ymgysylltiad pobl ifanc ➤ Cysylltiadau â Chynlluniau Gweithredu Cymunedau’n Gyntaf
Cymru gryf	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Hunan-barch, prosiectau gwrth-fwlio. ➤ Hyder – codi gweithgareddau ymhlith pobl ifanc ➤ Cymorth unigol, pwrpasol o fewn ysgolion i’r rhai hawsaf eu niweidio
Cymru iachach	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Rhaglenni bwyta iach ➤ Addysg am ryw a pherthnasau sy’n hyblyg o ran amser a lleoliad ➤ Cynllun cardiau-C (Condomau) ➤ Rhaglenni camddefnydd sylweddau ➤ Gwybodaeth a chyngor cyfredol o ansawdd da
Cymru fwy cyfartal	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth a herio gorthrwm yn un o swyddogaethau canolog gwaith ieuentid

	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Gwaith rhwng y cenedlaethau ➤ Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth lesbiaidd, hoyw, deuryweddol a thrawsryweddol ➤ Ymwybyddiaeth o anabledd ➤ Goresgyn a herio troseddau casineb/eithafiaeth ➤ Ymarfer gwrth-wahaniaethu ➤ Datblygu hunan-barch a chydnerthedd ➤ Datblygu cynhwysiant cymdeithasol ➤ Cydbwysedd rhwng darpariaeth bwrpasol a mynediad agored ➤ Darpariaeth allgymorth/ ar wahân i gynnig cyfleoedd cyfartal i bobl ifanc mewn cymunedau "anodd eu cyrraedd" fel cymunedau teithwyr, disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref ac ati.
Cymru o gymunedau cydlynus	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Dysgu sgiliau "meddal" a sgiliau hanfodol mae eu hangen i gynnal cymunedau ➤ Ennill dealltwriaeth i gyd-gymorth ac anghenion eraill ➤ Cymryd rhan mewn gweithgareddau positif ➤ Prosiectau gwella'r amgylchedd ➤ Dinasyddiaeth/ gwirfoddoli Gwobr Dug Caeredin
Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Eisteddfodau, gweithdai theatr, cyfnewidfeydd ieuenctid ➤ Cynnal digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, cynhyrchu llenyddiaeth Gymraeg ➤ Darparu gwaith ieuenctid a chyfleoedd hyfforddi/ dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Cyfnewidfeydd ieuenctid ➤ Prosiectau dinasyddiaeth fyd-eang ➤ Rhaglenni ymwybyddiaeth o ddiwylliant a hunaniaeth ➤ Rhaglenni amgylcheddol ➤ Gwaith partneriaeth gyda chyrrff fel menter iaith

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid hefyd yn darparu **gweithdai a llawer iawn o hyfforddiant** i unigolion a chyrrff am bynciau fel:

- Perthnasoedd iach
- Addysg Rhyw
- Iechyd dynion
- UNCRC
- Iechyd menywod
- Hunan-barch
- Delwedd y corff
- Bwyta'n iach
- Bwlio
- Straen arholiadau
- Rheoli dicter
- Rhywioldeb a Dysfforia rhywedd
- Dulliau iach o fyw
- Ymwybyddiaeth o ysmegu
- Ymwybyddiaeth o gamddefnydd alcohol a sylweddau
- Rhianta
- Straen ac ymlacio
- Rheoli arian
- Cyflogadwyedd
- Rheoli'r meddwl
- Diogelwch ar-lein
- Pdantrwydd
- Ymwybyddiaeth o ragfarn a gwahaniaethu

Drwy'r dulliau newydd o asesu pa mor agored mae rhywun i niwed (VAP) sy'n cael eu defnyddio'n lleol fel rhan o'r [Fframweithiau Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid](#), mae pobl ifanc yn ymglyfwyno'n gynyddol gyda dangosyddion iechyd meddwl, heb ddiagnosis a heb fodloni meini prawf CAMHS. I gynorthwyo'r bobl ifanc hyn, mae sesiynau llesiant galw heibio ar gael yn helaeth hefyd. Gall y rhain fod yn ddarpariaethau aml-asiantaeth sy'n bwriadu bod yn siopau un stop i bobl ifanc gael manteisio ar amrediad o gymorth, yn dibynnu ar eu hanghenion. Mae darpariaeth ieuenctid mynediad agored, fel gwaith ieuenctid sy'n sefyll ar wahân, darpariaeth chwarae mewn strydoedd a chanolfannau yn chwarae rôl hanfodol wrth nodi ac olrhain pobl ifanc sydd yn aml wedi ymeithrio rhag addysg prif ffrwd. Mae llawer o'r bobl ifanc hyn hefyd yn ymwneud â gweithwyr proffesiynol gwaith ieuenctid y tu allan i gyd-destun addysgol, sy'n gallu cynnig doler gyswllt werthfawr i fwydo gwybodaeth i mewn i ddulliau VAP o fewn y Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant.

Er bod trefniadau'n amrywio ar draws awdurdodau lleol ac ar draws rhanbarthau, mae gan weithwyr ieuenctid draddodiad cryf o ran cysylltiadau rhyngddyn nhw ac ymarferwyr iechyd, gyda gwasanaethau yn rhannu lleoliad mewn rhai ardaloedd. Hefyd mae'r Gwasanaethau Ieuenctid yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi datblygu pecyn cymorth Iechyd a Llesiant ar gyfer ymarferwyr ar y cyd â Thîm Iechyd y Cyhoedd Aneurin Bevan. Nod y pecyn cymorth yw "*...darparu canllawiau ymarferol ar gyfer sefydlu a chynnal gweithdai mewn perthynas ag iechyd i bobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed, mewn lleoliadau anffurfiol.*" Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys arweiniad clir ar sut i'w ddefnyddio a'i gyflwyno mewn sefyllfaoedd grŵp a thrwy waith unigol, gyda'r adran am iechyd emosiynol yn canolbwyntio ar fodel "Pum llwybr i lesiant" - *Cysylltu (â'r bobl o'ch amgylch)*"; *Bod yn weithgar, Cymryd sylw* (bod yn chwilfrydig); *Parhau i ddysgu, a Rhoi*.

Mae gan y Gwasanaeth Ieuenctid gysylltiadau cryf yn aml â Nyrsys Ysgol hefyd, gan ddarparu gwybodaeth a mynediad i'r cynllun Cardiau-C. Nyrsys ysgol sy'n cynnig gwasanaethau galw heibio mewn canolfannau ieuenctid lleol hefyd.

Gwaith ieuenctid yn gwneud gwahaniaeth

Yn hanesyddol, mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer arwyddocâd galluoedd cymdeithasol ac emosiynol wedi bod yn heriol, os nad yn wibiog e.e. roedd diffyg cytundeb o ran iaith a diffiniadau. Mae hyn yn gallu arwain at fwy o ffocws ar fesuriadau 'caled' fel cymwysterau ac achrediad, sydd heb gymryd i ystyriaeth cynnydd mewn perthynas ag iechyd, llesiant a nodweddion personol/cymdeithasol hanfodol eraill. Fodd bynnag, mae yna rai offer effeithiol ar gyfer mesur llesiant pobl ifanc, ac mae nifer o'r rhain yn cael eu defnyddio ar ddechrau ymwneud person ifanc â gwaith ieuenctid a thrwy adolygiadau cyfnodol.

Er enghraifft, yng ngoleuni'r cysylltiadau gweithio agos rhwng gwaith ieuenctid a gwasanaethau cwnsela mewn rhai meysydd, mae offer mesur tebyg yn cael eu defnyddio e.g. yr Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ), YP CORE a Graddfa Hunan-Barch Rosenberg. Enghreifftiau eraill o offer mesur y pellter a deithiwyd sy'n

cael eu defnyddio i asesu cynnydd/effaith yw Agweddau Disgyblion at Eu Hunain a'r Ysgol (PASS), sy'n helpu i ddylunio ymyriadau priodol ar sail datganiad y person ifanc o'i agweddau a'i farn tu mewn i'r ysgol a'r tu allan iddi. Caiff canfyddiadau asesiad PASS eu trafod â'r person ifanc, maen nhw'n nodi'r meysydd allweddol i weithio arnyn nhw gyda'i gilydd ac yn cwblhau cynllun gweithredu ar sut i'w gyflawni, pa gefnogaeth mae ei hangen, amserlenni ac yn y blaen. Mae graddfa Rickter, Outcomes Star a Dangos Llwyddiant yn offer defnyddiol eraill. Yng nghydestun defnyddio offer o'r fath, mae ymarferwyr yn ymwybodol bod angen i fesur cynnydd pobl ifanc fod yn gymesur â thaith y berthynas, a'r ymyrraeth ddilynol/barhaus.